Datganiad Anheddle
Blaen-porth
Inset Rhif 116

Disgrifiad
Saif Blaen-porth ar yr A487(C), 8 km (5 milltir) i'r dwyrain i Aberteifi 16 km (10 milltir) i'r gorllewin i'r Post-mawr. Yn bennaf mae datblygu wedi digwydd ar ffurf stribedog ar hyd y mân ffyrdd oddi ar y gefnffordd.

Mae'r anheddle'n cynnwys rhagor na 80 o anheddau. Siaredir yr iaith Gymraeg yn feunyddiol. Ysgol gynradd, sydd hefyd yn gwasanaethu Blaenannerch a Than-y-groes, eglwys ac oriel gelf/siop grefftau yw'r unig gyfleusterau. Mae safleoedd bychain ar gyfer busnesau ar gyrion y pentref ar ddwy o'r mân ffyrdd. Saif Blaen-porth ar lwybr bysys Aberystwyth/Aberteifi, ac mae gwasanaeth bysys arno bob dydd. Mae'n dibynnu ar Dan-y-groes a Blaenannerch ar gyfer siopa beunyddiol ac ar Aberteifi am y rhan fwyaf o'r prif wasanaethau a chyfleusterau.

Ymateb i'r Ymgynghori
Roedd pobl yn bleidiol i gynnwys tir ychwanegol o fewn terfynau'r pentref i unioni'r prinder plotiau/diffyg plotiau yr oedd pobl yn ei weld yn y pentref i gyflawni'r galw lleol. Awgrymai'r sylwadau y byddai hyn yn helpu i atgyfnerthu'r gymuned leol ac yn helpu i gynnal y swyddfa bost a'r orsaf betrol leol.

Byddai datblygu yn Nhan-yr-eglwys yn gyfle i gyd-drafod lle troi, sydd yn eisiau ar hyn o bryd.

Gweledigaeth ar gyfer y Gymuned
Mae'n lleoliad poblogaidd ar gyfer peth datblygu o blith y gymuned leol, a rhagdybir y bydd Blaen-porth yn darparu ar gyfer dyluniad a chymysgedd o ddatblygiadau newydd ac amrywiaeth gytbwys o unedau y gall pobl leol eu fforddio'n rhwyddach. Caiff datblygiadau eu monitro er mwyn ceisio sicrhau y bydd y cynigion yn unol â'r galw hwnnw.

Cyfyngiadau ar Ddatblygu
Isadeiledd
Rhaid cadw carthion aflan mewn carthbyllau wedi eu selio sy'n dal dŵr fel na chaiff dŵr daear ei lygru.

Mae llifogydd yn digwydd ar Afon Howni, sy'n cael ei hystyried yn gwrs y dŵr cyffredin. Bydd rhaid rhoi cyfrif am beryglon llifogydd wrth wneud cynigion i ddatblygu.

Settlement Statement
Blaenporth
Inset Number 116

Description
Blaen-porth is located on the A487(T), 8 km (5 miles) east of Cardigan and 16 km (10 miles) west of Synod Inn. Development has primarily occurred in ribbon format along minor roads branching off the trunk road.

The settlement comprises of over 80 dwellings. The Welsh language is in every day use. Facilities are limited to a primary school, which also serves the adjacent settlements of Blaenannerch and Tan-y-groes; a church and an art gallery/craft shop. Small business sites are located at the edges of the settlement on two of the minor roads. Blaen-porth lies on the Aberystwyth/Cardigan bus route, serviced daily. It looks to Tan-y-groes and Blaenannerch for local shopping and to Cardigan for most major services and facilities.

Consultation Response
The inclusion of additional land within the settlement boundary was welcomed to redress the perceived shortage of plots/lack of plots in the village to meet local demand. Comments suggested that this would help strengthen the local community and help sustain the local post office and petrol station.

Development at Tanyreglwys would be an opportunity to negotiate a turning area, which is lacking at present.

Vision for the Community
A popular location for very limited development from within the local community, it is anticipated that Blaen-porth will provide for a design and mix of new development and a balanced range of units that local people can more readily afford. Development will be monitored to try to ensure that proposals are consistent with such demand.

Constraints on Development
Infrastructure
All foul drainage must be contained in sealed watertight cesspools to prevent pollution of groundwaters.

Flooding is known to occur on River Howni, classed as an ordinary water course. Development proposals must be referred for consideration of potential flood risk impacts.